

**Arolygiad o Bractis
Deintyddol Cyffredinol
[Â rhybudd]
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm
Taf**

**L Roberts & Associates-
Ferndale**

29 Medi 2014

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni: Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

Pennod	Rhif Tudalen
1. Cyflwyniad	2
2. Methodoleg	2
3. Cyd-destun	3
3. Crynodeb	4
4. Canfyddiadau	6
5. Y Camau Nesaf	17

Atodiad A – Cynllun Gwella

1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad arferol lle rhoddwyd rhybudd yn Neintyddfa Ferndale (L Roberts and Associates) yn 27 High Street, Ferndale, CF43 4RH ar 29 Medi 2014. Mae'r practis deintyddol yn dod o dan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Yn ystod yr arolygiad ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Arweinyddiaeth a rheolaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Yn ystod yr arolygiad rydym yn adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
- Cyfweiliadau ag aelodau staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis; offer a safle
- Gwybodaeth o fewn taflen wybodaeth a gwefan y practis (lle bo ar gael)
- Holiaduron AGIC a gwblhawyd gan gleifion
- Sgyrsiau gyda chleifion

Ar ddiwedd pob arolygiad rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y ddeintyddfa fel eu bod nhw'n derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r Bwrdd Iechyd Lleol eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr Gweithredu ar Unwaith. Caiff canfyddiadau o'r math hwn eu manylu, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, o fewn Atodiad A o'r adroddiad arolygu.

Gofynnir i'r sawl a ddarlleno'r adroddiadau hyn ystyried bod arolygiadau deintyddol yn rhoi ciplun o'r safonau a gyflenwir yn y practis ar ddiwrnod yr ymweliad arolygu.

3. Cyd-destun

Mae Deintyddfa Ferndale yn darparu gwasanaethau i gleifion y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Mae'r ddeintyddfa yn rhan o ystod o wasanaethau deintyddol a ddarperir i gleifion o fewn ardal ddaearyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Roedd y practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys un prif ddeintydd a dau ddeintydd cyswllt; un hylenydd deintyddol; dau dderbynnydd; pedair nyrs ddeintyddol a rheolwr practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gweithdrefnau diagnostig a sgrinio
- Archwilio iechyd y geg
- Trin clefydau
- Deintyddiaeth mewn Argyfwng
- Deintyddiaeth i blant

4. Crynodeb

Edrychodd AGIC ar sut roedd Deintyddfa Ferndale yn cwrdd â'r safonau gofal a nodir yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru.

Yn gyffredinol gwelsom fod y gofal a'r driniaeth ddeintyddol yn cael eu hategu gan ystod o systemau a phrosesau rheoli i sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal a thriniaeth ddiogel ac amserol.

Gwelsom hefyd fod trosiant y staff nyrsio a gweinyddol yn isel; roedd nifer o aelodau'r tîm wedi bod yn gweithio yn y ddeintyddfa ers nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag mewn sgysiau gyda'r deintyddion ar ddiwrnod yr arolygiad datgelwyd eu bod nhw wedi ei chael hi'n anodd dros y deuddeg mis diwethaf i recriwtio a chadw deintydd ychwanegol i gynorthwyo wrth ddarparu gwasanaethau i'r gymuned leol.

Roedd y ddeintyddfa wedi ymlwybro drwy gyfnod o newid mawr yn y deuddeg mis diwethaf; diddymwyd y bartneriaeth ddeintyddol flaenorol yn ystod Hydref 2013.

Yn ogystal â'r uchod, mae'r pwyntiau canlynol yn perthyn i'r hyn a nodwyd o fewn yr holiaduron AGIC a lenwyd, a'r hyn a welsom yn yr arolygiad hwn:

- Mynegodd cleifion eu bod nhw wedi derbyn gwybodaeth ddigonol am eu triniaeth. Dangosodd yr holiaduron a gwblhawyd bod cleifion yn fodlon yn gyffredinol â'r gwasanaethau a dderbyniwyd gan y ddeintyddfa hon.
- Yn gyffredinol, gwelsom fod triniaethau wedi eu cynllunio a'u cyflenwi mewn modd a oedd yn ceisio sicrhau diogelwch a lles y claf.
- Gall cleifion a staff fod yn hyderus bod pwyslais ar sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda.
- Yn gyffredinol gall cleifion a staff fod yn sicr bod amgylchedd y practis yn ddiogel a bod eu preifatrwydd yn cael ei ddiogelu.

Gwelsom hefyd bod angen gwella sawl agwedd ar y gwasanaeth. Y rhain oedd:

- Mae angen i'r ddeintyddfa sicrhau ei bod yn darparu cofnodion clir a chynhwysfawr ynghylch cydsyniad ar sail gwybodaeth a chynllunio triniaethau cleifion. Roedd hyn yn unol â chanllawiau arfer orau.
- Roedd hi'n ofynnol i'r ddeintyddfa ddangos sut y câi gwelliannau eu gwneud i'r trefniadau sydd ar waith ynghylch Atal a Rheoli Heintiau a

dadheintio. Roedd hyn er mwyn sicrhau diogelwch parhaus y cleifion a'r staff.

- Roedd angen i'r weithdrefn gwyno gyd-fynd yn llawn â threfniadau 'Gweithio i Wella' y Gwasanaeth Iechyd Gwladol er budd y cleifion sy'n mynychu'r ddeintyddfa.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Mynegodd cleifion eu bod nhw wedi derbyn gwybodaeth ddigonol am eu triniaeth. Dangosodd yr holiaduron a gwblhawyd bod cleifion yn fodlon yn gyffredinol â'r gwasanaethau a dderbyniwyd gan y ddeintyddfa hon.

Roedd un deg chwech o holiaduron cleifion AGIC wedi eu cwblhau yn ystod yr wythnos cyn yr arolygiad. O'r rhain dangosodd 15 fod y tîm deintyddol wastad yn rhoi croeso cynnes iddynt pan fyddant yn ymweld â'r ddeintyddfa. Roedd yr holiadur a oedd yn weddill yn cynnwys sylw i'r perwyl nad oedd rhai sgysiau ffôn â'r ddeintyddfa wedi'u cynnal wrth fodd y person, ond ni roddwyd manylion pellach.

Roedd sgysiau â dau glaf ar ddiwrnod yr arolygiad wedi arwain at sylwadau cadarnhaol am y gofal a'r driniaeth a dderbynion nhw yn Ferndale dros gyfnod o sawl blwyddyn. Dywedon nhw hefyd nad oedden nhw wedi profi unrhyw oedi wrth gael eu gweld gan y deintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Yn ogystal gwelsom yn uniongyrchol ymagwedd gymwynasgar, gyfeillgar a phroffesiynol aelodau'r staff wrth siarad â chleifion wyneb yn wyneb, neu dros y ffôn.

Wrth sgwrsio dywedodd un o'r staff gweinyddol bod apwyntiadau brys yn cael eu darparu mewn ymateb i anghenion unigol; mae gofyn i gleifion gysylltu â'r ddeintyddfa cyn 10:00am, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Fe'n hysbyswyd hefyd bod y deintyddion yn gweithio fel tîm i sicrhau bod cleifion 'brys' yn cael eu gweld ar yr un diwrnod, lle bo angen.

Mynegodd un claf a lenwodd holiadur ei fod wedi aros sawl wythnos am apwyntiad arferol ar un achlysur. Nid oedd y 15 a oedd yn weddill yn cynnwys y fath sylwadau. Roedd sgwrs gydag un claf ar ddiwrnod yr arolygiad wedi amlygu ymdrechion y ddeintyddfa i roi apwyntiad ar amser cyfleus iddi. Dywedodd 50% o'r cleifion a lenwodd holiadur AGIC eu bod nhw'n ymwybodol o sut i gysylltu â'r gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau.

Roedd cwestiwn ynghylch p'un a oedd cleifion o'r farn eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth ynghylch eu hopsiynau o ran triniaeth wedi arwain at sylwadau/ymatebion cadarnhaol. Nodir sampl o'r sylwadau a ddarparwyd isod (gan fod cleifion wedi cydsynio i'w cynnwys nhw yn yr adroddiad hwn):

'Oedd, wedi'i esbonio'n dda gan y deintydd a'r nyrs hylendid.'

'Rwy'n derbyn triniaeth drwyadl iawn bob tro.'

'Mae'r gwasanaeth a dderbyniaf i'n eithriadol; mae'r staff i gyd yn garedig iawn.'

A

'Gwasanaeth proffesiynol o'r radd flaenaf.'

Dangosodd saith o'r ymatebion fod cleifion yn ymwybodol sut i wneud cwyn/hysbysu am bryder ynghylch unrhyw agwedd o'u gofal a'u triniaeth ddeintyddol; cyfeiriodd un o'r saith yn benodol at boster cwynion a oedd wedi'i arddangos yn y ddeintyddfa. Dywedodd y naw claf a oedd yn weddill nad oedden nhw'n ymwybodol o'r ffordd o wneud cwyn. Gwelsom fodd bynnag bosteri wedi'u lamineiddio yn y ddwy ystafell aros a oedd yn rhoi rhywfaint o wybodaeth ar sut i fynegi pryderon gyda rheolwraig y ddeintyddfa.

Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Yn gyffredinol gwelsom fod triniaeth wedi'i chynllunio a'i chyflenwi mewn modd sy'n anelu at sicrhau diogelwch a lles y claf.

Roedd trafodaethau gyda deintyddion y ddeintyddfa wedi amlygu eu pwyslais ar gynllunio a chyflenwi gofal a thriniaeth mewn modd sy'n anelu at sicrhau diogelwch a lles pobl. Cyflawnwyd hyn yn rhannol, drwy wirio hanes meddygol y cleifion gyda phob ymweliad i sicrhau bod unrhyw beryglon i'w hiechyd yn cael eu cydnabod a'u cofnodi.

Archwiliom ni sampl o 15 o gofnodion deintyddol (hynny yw, pum cofnod claf am bob deintydd yn y ddeintyddfa). Roedd y cofnodion a ddewiswyd yn cynnwys cymysgedd o hen gleifion a chleifion newydd a'r tri chlaf cyntaf a welwyd gan bob deintydd ar ddiwrnod yr arolygiad. O ganlyniad gwelsom nad oedd cofnodion y cleifion yn gyffredinol yn cynnwys digon o fanylder am 'gynllunio triniaeth'. Golygai hyn nad oedd hi'n hollol glir inni pam y rhoddwyd rhai triniaethau i gleifion. Gallai'r wybodaeth gyfyng a welwyd o fewn samplau'r cofnodion hefyd arwain at anawsterau o fewn y ddeintyddfa o ran ymateb i unrhyw bryderon a fynegir gan gleifion ar derfyn eu triniaeth. Yn ogystal gwelsom nad oedd sgoriau'r Arholiad Periodontal Sylfaenol (BPE¹) wedi cael eu cofnodi mewn perthynas ag ymgynghoriadau a gwblhawyd gyda phlant, a defnydd cyfyng a wnâi'r ddeintyddfa o ganllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)² mewn perthynas ag amlder ymweliadau deintyddol. Fodd bynnag, gwelsom nifer fach o gofnodion a oedd yn dangos bod cleifion wedi eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus am y defnydd o belydrau-X yng nghynllun eu triniaeth. Darparwyd sylwadau inni hefyd gan gleifion, megis:

'Mae'r deintydd yn barod ei chymwynas ac yn fy nhywys drwy'r driniaeth gan esbonio wrth iddi fynd yn ei blaen, ac mae hyn o gymorth imi.'

A

'Mae'r deintydd wastad yn fy nhywys gam wrth gam ac yn esbonio pethau'n syml.'

¹ Mae'r BPE yn offeryn sgrinio deintyddol syml a chyflym a ddefnyddir er mwyn canfod pa lefel archwilio sydd ei hangen ac i ddarparu canllawiau elfennol ar driniaeth.

² Mae canllawiau NICE ar amlder ymweliadau deintyddol yn helpu deintyddion i benderfynu pa mor aml dylai cleifion gael eu galw nôl rhwng arolygiadau iechyd y geg, mewn modd sy'n briodol i anghenion cleifion unigol. Mae'r argymhellion yn gymwys ar gyfer cleifion o bob oed sy'n derbyn gofal sylfaenol gan staff deintyddol y GIG yng Nghymru a Lloegr.

Argymhelliad

Cynghorir Deintyddfa Ferndale i sicrhau ei bod yn darparu cofnodion clir a chynhwysfawr ynghylch cydsyniad ar sail gwybodaeth a chynllunio triniaeth y claf. Mae hyn yn unol â chanllawiau arfer orau.

Cedwid cofnodion yn y ddeintyddfa ar gronfa ddata'r cyfrifiadur. Roedd yr unig wybodaeth a gynhyrchir ar bapur yn ymwneud â hanes meddygol newydd neu ddiweddaedig a dywedwyd wrthym eu bod yn cael eu sganio'n ddiymdroi ar system y ddeintyddfa. Cawsom ein sicrhau bod gan bob aelod o staff eu cyfrineiriau unigryw i'r cyfrifiadur a bod yr holl wybodaeth yn cael ei harbed wrth gefn yn rheolaidd i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cynnal ar y system.

Gwelsom fod y trefniadau sydd ar waith o ran defnyddio'r offer pelydr-X yn cydweddu â safonau a rheoliadau cyfredol. Roedd hyn yn cynnwys diweddariadau hyfforddi ar gyfer staff priodol ac archwiliadau rheolaidd i safon pelydrau-X deintyddol y cleifion. Fodd bynnag, wrth graffu ar sampl bach o gofnodion deintyddol cleifion gwelwyd bod nifer/amlder y pelydrau-X a gymerwyd yn isel mewn perthynas â'r gofal a'r driniaeth barhaus a oedd angen arnynt. Roedd hi'n amlwg er hynny bod deintyddion wedi cofnodi digon o wybodaeth o fewn y sampl a welwyd i gyfiawnhau pam bod rhai delweddau pelydr-X wedi'u cymryd. Yn ogystal, gwelwyd bod safon y delweddau pelydr-X yn foddhaol o fewn y nifer fach a archwiliwyd.

Roedd gan y ddeintyddfa weithdrefnau digonol ar waith i ddelio ag argyfyngau; roedd cyfarpar dadebru ar gael i'w ddefnyddio. Gwelsom hefyd fod nifer o staff wedi derbyn hyfforddiant argyfwng meddygol ym mis Gorffennaf 2014, gyda sesiynau pellach wedi'u trefnu ar gyfer Hydref 2014.

Canfuwyd bod cyffuriau brys a gedwir yn y ddeintyddfa yn cael eu storio'n ddiogel. Gwelsom hefyd fod trefniadau addas ar waith i sicrhau bod cyffuriau sydd â'u hoes wedi dod i ben yn cael eu tynnu ymaith yn ddi-oed a bod wastad aelod o staff yn gweithio yn y ddeintyddfa sydd wedi'i hyfforddi i roi cymorth cyntaf.

Wrth graffu ar y gweithdrefnau sydd ar waith ynghylch glanhau a sterileiddio offer (sef dadheintio) amlygwyd bod angen gwella'r broses sydd ar waith yn y ddeintyddfa ar y llawr daear. Yn benodol, nid oedd hi'n glir p'un a oedd y ddwy sinc a ddynodwyd ar gyfer glanhau a golchi offer yn cael eu defnyddio' ar gyfer hynny yn unig. Cawsom sicrwydd fodd bynnag bod offer (offer/peirianwaith a gedwir yn rhan honno'r ddeintyddfa) ond yn cael eu dadheintio pan fo cleifion wedi gadael yr ystafell yn dilyn triniaeth weithredol. Roedd hynny o gymorth wrth leihau'r perygl o draws-heintio.

Canfuom fod yr uned aerdymheru yn y ddeintyddfa ar y llawr cyntaf (ym mlaen yr adeilad) yn chwythu aer oer o'r ardal fudr 'o du mewn i'r ddeintyddfa' tuag at yr ardal glinigol 'lân' gan gynyddu'r perygl o gyswllt rhwng gronynnau aer aflan ac offer glân.

Trafodwyd yr uchod gyda'r person dynodedig ar gyfer atal a rheoli heintiau yn y ddeintyddfa. O ganlyniad deallom fod nifer o fesurau wedi eu cymryd yn y deuddeg mis diwethaf er mwyn cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.³ Er enghraifft, fe'n darparwyd â chopi o'r archwiliad a wnaed yn y misoedd diwethaf ar drefniadau a phrosesau dadheintio yn y ddeintyddfa, a arweiniodd at lunio rhestr o welliannau. Dywedwyd wrthym, fodd bynnag, nad oedd hi'n debygol y cydymffurfir yn llawn â'r canllawiau dadheintio cyfredol o fewn y tair blynedd nesaf. Roedd hyn yn sgil y gost o adleoli, prynu a thynnu ymaith offer glanhau a dadheintio ar y safle bresennol.

Arsylwom fod offer a ddefnyddiwyd wedi cael eu trochi a'u gwahanu (i raddau gwahanol ym mhob un o'r tair deintyddfa). Gwelsom hefyd fod offer yn cael eu glanhau, eu sterileiddio a'u rhoi mewn cwdyn yn barod ar gyfer eu hail-ddefnyddio, yn syth ar ôl iddynt gael eu sterileiddio.

Argymhelliad

Mae'n ofynnol i Ddeintyddfa Ferndale i ddangos sut caiff gwelliannau eu gwneud i'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau a dadheintio. Mae hyn er mwyn sicrhau diogelwch parhaus y cleifion a'r staff.

Roedd cyfleusterau golchi dwylo addas yn y ddeintyddfa. Canfuom nad oedd sinc yn un o'r toiledau ar y llawr daear; fodd bynnag, roedd sinc golchi dwylo wedi'i osod yn y wal gerllaw'r toiled i annog pobl i olchi dwylo yn syth ar ôl gadael y toiled.

Wrth graffu ar y cofnodion cynnal a chadw cawsom gadarnhad bod gan y ddeintyddfa gontract parhaus ar waith er mwyn sicrhau bod gwastraff peryglus yn cael ei drin, ei storio a'i waredu'n briodol.

Yn ystod ymweliad yr arolygiad, ystyriom a oedd cyfleusterau clinigol y ddeintyddfa yn cydymffurfio â'r safonau cyfredol ar gyfer gwasanaethau iechyd

³ Mae dogfen WHTM 01-05 yn rhoi canllawiau ar ddadheintio i weithwyr proffesiynol mewn practisau gofal sylfaenol a gwasanaethau deintyddol cymunedol.

yng Nghymru - fel yr amlinellir yn nogfen Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well⁴. Mae ein harsylwadau cyffredinol yn cadarnhau bod y cyfleusterau yn ddigonol; roedd deintyddfeydd y llawr cyntaf yn olau, yn fawr, ac wedi'u cyflenwi'n dda.

⁴ <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/safonau-ar-gyfer-gwasanaethau-iechyd-cym> Caiff y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru eu hategu gan ganllawiau sy'n cyd-fynd â nhw. Ceir canllawiau penodol ar bob safon unigol (1 – 26) o fewn y ddogfen hon.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gall cleifion a staff fod yn hyderus bod pwyslais ar sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda.

Roedd yna berson wedi'i gyflogi yn rôl rheolwr y practis. Fodd bynnag, ers i'r bartneriaeth ddeintyddol flaenorol gael ei diddymu ym mis Hydref 2013 mae'r gwaith o reoli Deintyddfa Ferndale o ddydd i ddydd yn gyfrifoldeb i un o'r deintyddion cyswllt. Roedd hyn yn ychwanegol i rôl hanfodol y deintydd cyswllt wrth ofalu am gleifion a'u trin. Tra roedd y deintydd hwnnw wedi mynegi ei bod hi wedi croesawu'r rôl estynedig hon (ac yn amlwg wedi bod yn llwyddiannus wrth ddatblygu nifer o systemau a phrosesau rheolaeth i ategu'r broses o redeg y ddeintyddfa o ddydd i ddydd), canfuom fod gorddibyniaeth ar yr unigolyn hwn. Felly cynghorom y ddeintyddfa i ystyried ffyrdd amgen o gyflenwi gwasanaeth a rheoli'n llwyddiannus ar draws y tîm o ddeintyddion (e.e. drwy rannu swyddogaethau a chyfrifoldebau).

Yn gyffredinol canfuom fod y ddeintyddfa yn cael ei rhedeg yn dda gan fod y gwasanaeth yn cael ei ategu gan ystod o systemau rheoli a phrosesau sicrhau ansawdd i sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael ei gyflenwi'n ddiogel ac yn brydlon. Cadarnhawyd mewn sgwrs ag un o'r deintyddion cyswllt bod archwiliadau cyson yn cael eu gwneud, gan gynnwys gyda materion iechyd a diogelwch ac atal a rheoli heintiau (bob chwe mis), fel sy'n ofynnol.

Roedd elfen nyrsio a gweinyddol y tîm o staff wedi'i hen sefydlu; bu rhai aelodau'n gweithio yn y ddeintyddfa ers sawl blwyddyn. Fodd bynnag mewn sgysiau gyda'r deintyddion ar ddiwrnod yr arolygiad datgelwyd eu bod nhw wedi ei chael hi'n anodd dros y deuddeg mis diwethaf i recriwtio a chadw deintydd ychwanegol i gynorthwyo wrth ddarparu gwasanaethau i'r gymuned leol.

Dywedodd y staff gweinyddol a nyrsio y siaradon ni â nhw eu bod nhw'n cael eu cefnogi'n dda yn eu gwaith. Dywedon nhw hefyd eu bod nhw, a'r deintyddion, yn mynychu cyfarfodydd staff rheolaidd (bob 4-6 wythnos) lle'r oedd ganddynt gyfleoedd i fynegi unrhyw bryderon ynghylch y gwasanaethau a ddarperir i gleifion. Defnyddiwyd y cyfarfodydd hyn hefyd i gyfleu gwybodaeth newydd/perthnasol i'r tîm deintyddol. Cadarnhaom y trefniadau hyn drwy edrych ar y nodiadau a gedwir yn y ddeintyddfa a oedd yn amlygu'r pynciau/materion perthnasol a drafodwyd gan y tîm yn ystod y chwe mis diwethaf. Roedd y ddeintyddfa hefyd wedi cynnal arolwg staff yn gynharach yn 2014 fel modd o gywain eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir.

Drwy archwilio tair ffeil staff gwelwyd eu bod nhw wedi cael eu harfarnu ynghynt yn 2014, gan ganolbwyntio ar eu perfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf ac adnabod anghenion hyfforddi ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Drwy graffu ffeiliau staff cawsom gadarnhad eu bod wedi bod ar sesiwn hyfforddi yn ddiweddar ar amddiffyn oedolion a phlant. O ganlyniad roedd manylion cyswllt ar gael yn y ddeintyddfa mewn perthynas â thimoedd diogelu lleol. Canfuom ymhellach fod gan y ddeintyddfa ymagwedd ragweithiol tuag at hyfforddi staff yn gyffredinol. Roedd hi'n amlwg mai canlyniad hyn oedd bod staff yn hyderus ac yn gymwys wrth ddarparu gofal a chymorth i gleifion.

Canfuom fod gan staff gontractau cyflogaeth ar waith a oedd wedi'u llofnodi a'u dyddio. Roedd y ddeintyddfa hefyd wedi datblygu rhaglen gynefino fel bod unrhyw aelodau newydd o'r tîm deintyddol yn gallu dod yn gyfarwydd â phrosesau a gweithdrefnau sefydledig o ran gwasanaethau'r cleifion.

Wrth graffu ar ystod o bolisiâu ysgrifenedig sydd ar waith (a dderbyniwyd drwy arbenigwr Cymdeithas Ddeintyddol Prydain) gwelwyd bod gan staff fynediad hawdd at ganllawiau cyfredol o ran arferion gwaith diogel.

Canfuom dystiolaeth fod asesiadau iechyd a diogelwch staff unigol wedi eu cwblhau (e.e. y rheiny ar gyfer staff sy'n defnyddio offer cyfrifiadurol).

Datgelwyd wrth archwilio cofnodion staff ac wrth sgwrsio â deintyddion, nad oedd dystiolaeth gyfredol gan y ddeintyddfa ar roi brechlyn Hepatitis B i holl aelodau perthnasol y staff. Felly cynhaliom drafodaethau ag aelodau o'r tîm deintyddol a dywedwyd wrthym fod y staff perthnasol eisoes wedi gwneud apwyntiadau gyda'u meddyg teulu i gael cyngor. Fodd bynnag fe'n hysbyswyd nad oedd y ddeintyddfa wedi llwyddo i gael cyngor a chymorth iechyd galwedigaethol addas ynghylch y mater uchod.

Canfuom fod gan Ddeintyddfa Ferndale bolisi cwynion (pryderon); fodd bynnag, nid oedd y trefniadau a oedd ar waith er mwyn hysbysu cleifion o'u hawliau yn gwbl gyson â 'Gweithio i Wella'. Gan fod y ddeintyddfa yn trin cleifion GIG (yn ogystal â chleifion preifat) roedd angen i'r polisi fod yn gydnaws â threfniadau sefydledig GIG.

Wrth archwilio cofnodion cwynion dangoswyd fodd bynnag fod y dull o ddelio â chwynion hyd yma yn gweddu'n agos â 'Gweithio i Wella'.

Argymhelliad

Mae angen i'r weithdrefn gwyno fod yn gwbl gydnaws â threfniadau 'Gweithio i Wella' y Gwasanaeth Iechyd Gwladol er budd y cleifion sy'n mynychu'r ddeintyddfa.

Archwiliwyd sampl o gofnodion damweiniau. Roedd y llyfr damweiniau a ddefnyddiwyd yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data. Roedd y cofnodion hyn yn dangos bod damweiniau wedi cael eu 'hymchwilio' er mwyn atal digwyddiadau tebyg rhag digwydd.

Wrth archwilio amrywiaeth o dystysgrifau cynnal a chadw a gedwir yn y ddeintyddfa gwelwyd bod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod yr holl offer yn cael ei archwilio'n amserol ac yn unol â rheoliadau gorfodol.

Ansawdd yr amgylchedd

Yn gyffredinol gall cleifion a staff fod yn hyderus bod amgylchedd y ddeintyddfa'n ddiogel a bod eu preifatrwydd yn cael ei ddiogelu.

Mae gwasanaethau deintyddol wedi cael eu darparu ers sawl blwyddyn yn yr adeilad a ddefnyddir gan Ddeintyddfa Ferndale. Roedd llefydd parcio ar gael ar hyd y brif heol gerllaw'r ddeintyddfa. Roedd cleifion sydd ag anawsterau wrth symud neu sy'n defnyddio cadair olwyn yn gallu cael mynediad i'r adeilad. Roedd hefyd un ystafell trin claf/deintyddfa ar y llawr daear mewn cydnabyddiaeth nad yw pob claf yn gallu defnyddio'r grisiau.

Roedd gan y ddeintyddfa dderbynfa ar y llawr daear, tair ystafell drin a dwy ystafell aros wedi'u gosod ar draws dau lawr. Wrth arsylwi gwelsom fod maint yr ystafelloedd aros yn briodol ar gyfer nifer y deintyddfeydd.

Câi cleifion a staff eu darparu â chyfleusterau toiled ar y llawr daear, ac roedd y ddau wedi eu harwyddo'n glir. Gosodwyd rheilen gydio yn y toiledau i gynorthwyo cleifion ac roedd drysau llydan i ganiatáu mynediad i gadair olwyn.

Roedd taith o amgylch y safle wedi cadarnhau bod larwm ddiogelwch yn ei le a bod y ddeintyddfa'n cael ei chynnal yn ddigonol y tu mewn a'r tu allan. Canfuwyd bod y dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a oedd yn cael ei harddangos yn ddilys. Canfuom hefyd fod arwyddion a lamineiddiwyd, ac arwyddion allanfa dân ar y ddau lawr, yn rhoi cyfarwyddyd i gleifion a staff ynghylch sut i adael yr adeilad pe bai tân. Cadarnhawyd mewn sgwrs ag aelod o staff fod y ddeintyddfa'n profi'r larwm tân yn rheolaidd.

Roedd yr ystafelloedd aros, y deintyddfeydd a'r coridorau yn lân, yn ffres ac yn daclus. Roedd pob man yn cael ei awyru, a'i oleuo'n addas. Fe'n hysbyswyd bod y golau argyfwng yn cael ei brofi'n rheolaidd.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer storio a diogelu cofnodion cyfrifiadurol.

Roedd enw'r perchennog/prif ddeintydd wedi'i arddangos yn glir ar flaen yr adeilad. Nid oedd enwau na chymwysterau'r deintyddion cyswllt wedi'u harddangos yno. Fodd bynnag roedd y wybodaeth ar gael yn hawdd i'r cleifion ar hysbysfwrdd yn yr ystafell aros ar y llawr daear ac ar ffurf cyflenwad o daflenni wrth ddesg y dderbynfa. Roedd y rhif cyswllt ar gyfer gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau, a'r oriau agor, wedi'u harddangos yn ffenestr flaen yr adeilad.

Roedd amrywiaeth o bosteri wedi'u harddangos yn ystafell aros y llawr daear. Roedd y rhain yn cynnwys gwybodaeth i gleifion am yr hyn y dylent ei ddisgwyl (fel y nodir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol), canllaw am ffioedd triniaethau preifat ac ar y GIG, ac enwau a rolau'r staff sy'n gweithio yn y ddeintyddfa. Roedd gwybodaeth ar gael hefyd ynghylch effaith methu neu ganslo apwyntiadau a chyngor ar lanhau dannedd.

Gwelsom fodd bynnag nad oedd y ddeintyddfa wedi arddangos tystysgrif gofrestru AGIC parthed un o'r deintyddion sy'n darparu deintyddiaeth breifat ar hyn o bryd. Fe'u cynghorwyd bod hyn yn ofyniad cyfreithiol, ac yn sgil hyn gwnaed trefniadau i arddangos y dystysgrif mewn man amlwg.

6. Y Camau Nesaf

Yn sgil yr arolygiad hwn mae angen i'r ddeintyddfa gwblhau cynllun gwella. Ceir hwn yn Atodiad A (tudalen 18).

Atodiad A

Cynllun Gwella: Practis Deintyddol Cyffredinol
Bwrdd Iechyd: Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Practis: Deintyddfa Ferndale (L. Roberts and Associates)
Dyddiad yr arolygiad: 29 Medi 2014

Cyf	Canfyddiad	Camau i'w cymryd	Camau a gwblhawyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Profiad y Claf					
	Dim				
Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru					
Tudalen 10	<i>Cynghorir Deintyddfa Ferndale i sicrhau ei bod yn darparu cofnodion clir a chynhwysfawr ynghylch cydsyniad ar sail gwybodaeth a chynllunio triniaeth y claf. Mae hyn yn unol â chanllawiau arfer orau.</i>	Cynllun i ddarparu rhagor o wybodaeth i ddeintyddion a fydd yn eu galluogi i gynyddu eu gwybodaeth yn y maes hwn.	1. Darparu posteri yn y ddeintyddfa ar sail profforma a ddarparwyd gan AGIC ar gyfer nodiadau clinigol, ac ysbeidiau priodol ar gyfer cymryd radiograffau. 2. Pecyn gwybodaeth i ddeintyddion gyda gwybodaeth ychwanegol gan gynnwys llwybr adolygu iechyd y geg, canllawiau NICE ar amlder apwyntiadau,	Rebecca James	cwblhawyd

Cyf	Canfyddiad	Camau i'w cymryd	Camau a gwblhawyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>profforma adolygu iechyd y geg NICE, a chyngor ar gymryd radiograffau.</p> <p>3. Rhoi posteri yn y dderbynfa ynghylch canllawiau NICE ar amllder apwyntiadau, i gynyddu gwybodaeth y cyhoedd am sut y pennir dyddiad eu hapwyntiad nesaf.</p> <p>Bydd hyn yn caniatáu pob deintydd i weithio tuag at arfer orau yn y maes hwn.</p>		
Tudal en 11	<p><i>Mae'n ofynnol i Ddeintyddfa Ferndale ddangos sut y caiff gwelliannau eu gwneud i'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau a dadheintio. Mae hyn er mwyn sicrhau diogelwch parhaus y cleifion a'r staff.</i></p>		<p>1. Darparu cyfarwyddiadau gwell, haws i'w darllen yn y deintyddfeydd ynghylch pryd a sut y dylid cyflawni dyletswyddau</p> <p>2. Sicrhau bod gan y deintyddfeydd i gyd yr un llyfrau cadw cofnodion ynghylch dilysu prosesau glanhau â llaw – gyda hyfforddiant pellach ar eu defnyddio</p> <p>3. Parhau â hyfforddiant rheolaidd i gynnal safonau uchel wrth reoli traws-heintio.</p>	Rebecca James	1-6 mis

Cyf	Canfyddiad	Camau i'w cymryd	Camau a gwblhawyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>4. Asesu'r mathau o beiriannau diheintio sydd ar gael, asesu p'un a oes lle i'w cadw yn yr adeilad, ac unrhyw waith plymio/coed/trydanol sydd ei angen er mwyn eu gosod.</p> <p>Asesu effaith eu gosod ar ddarparu gofal rheolaidd i'r claf, a'r effaith i'r staff o ran pwysau gwaith.</p> <p>Y cynnydd posibl yn yr amser sydd ei angen i brosesu offer a ph'un a fydd angen rhagor o offer ym mhob deintyddfa i unioni hyn.</p> <p>Ystyried cyfyngiadau ariannol wrth fuddsoddi yn yr uchod i gyd.</p> <p>Canolbwyntio ar ddogfen GIG 'gwneud yn dda, gwneud yn well' wrth gynllunio unrhyw newidiadau yn y practis.</p>		
Arweinyddiaeth a Rheolaeth					
Tudalen 14	<i>Mae angen i'r weithdrefn gwyno fod yn gwbl gydnaws â threfniadau 'Gweithio i Wella' y Gwasanaeth Iechyd Gwladol</i>		Canolbwyntio ar ddogfen GIG 'gweithio i wella' wrth newid polisiau a gweithdrefnau'r practis	Rebecca James	1 mis

Cyf	Canfyddiad	Camau i'w cymryd	Camau a gwblhawyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<i>er budd y cleifion sy'n mynychu'r ddeintyddfa.</i>		o ran delio â chwynion a phryderon.		
Amgylchedd					
Dim					

Llofnod: R M James

(Mae'r llofnod yn perthyn i'r person sy'n cymryd cyfrifoldeb am sicrhau bod camau yn cael eu gweithredu mewn ymateb i'r materion uchod)

Dyddiad: 15/10/04